

**CYNGOR CYMUNED
LLANFIHANGEL-AR-ARTH
COMMUNITY COUNCIL**

POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Adolygwyd a Mabwysiadwyd/
Reviewed and Adopted:

20.11.2023

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH

POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwyniad

Mae chwyldro yn digwydd yn y ffordd yr ydym yn cyfathrebu. Mae'r byd yn profi'r newid mwyaf erioed yn y ffordd y caiff gwybodaeth ei chreu a'i pherchnogi, ynghyd â pha mor gyflym y gellir ei rhannu. Mae hyn yn newid y ffordd yr ydym yn byw, gweithio a hyd yn oed sut rydym yn siarad a meddwl.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn derm cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer nifer o arfau aml-gyfryngol ar-lein a ddefnyddir i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Gellir cael mynediad atynt o'ch ffôn clyfar, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu deledu clyfar. Mae'r holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim a gellir eu trefnu'n gyflym a rhwydd o dudalen Rhyngrwyd.

1. Datganiad Polisi

- 1.1. Pwrpas y polisi hwn yw helpu gweithwyr ac aelodau etholedig i wneud penderfyniadau priodol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, fforymau, byrddau negeseuon, blogiau neu sylwadau ar we-erthyglau, megis Twitter, Facebook a LinkedIn.
- 1.2. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r safonau y mae'r Cyngor yn disgwyl i weithwyr ac aelodau etholedig eu cadw wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, o dan ba amgylchiadau y caiff eich defnydd o gyfryngau cymdeithasol ei fonitro a'r camau a gymerir os gwelir fod amodau'r polisi wedi cael eu torri.

2. Cwmpas y Polisi

- 2.1. Mae disgwyl i bob gweithiwr ac aelod etholedig gydymffurfio â'r polisi hwn yn ddiwahân i warchod preifatrwydd, cyfrinachedd a buddiannau'r Cyngor.
- 2.2. Os yw gweithwyr yn torri amodau'r polisi hwn gellir ymdrin â hynny o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu ac mewn achosion difrifol gallai gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol yn arwain at ddiswyddiad diannod.
- 2.3. Os yw aelodau etholedig yn torri amodau'r polisi hwn ymdrinnir â hynny yn unol â'r Cod Ymddygiad.

3. Cyfrifoldeb am Weithredu'r Polisi

- 3.1. Gan y Cyngor y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau gweithrediad effeithiol y polisi hwn.
- 3.2. Mae'r Clerc yn gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithrediad y polisi hwn ac am wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i leihau'r risgiau i'n gwaith.
- 3.3. Dylai pob gweithiwr ac aelod etholedig sicrhau eu bod yn cymryd yr amser i ddarllen a deall y polisi hwn. Dylai unrhyw enghreifftiau o dorri amodau'r polisi hwn gael eu hysbysu i Glerc neu Gadeirydd y Cyngor.
- 3.4. Dylai cwestiynau am gynnwys neu weithredu'r polisi hwn gael eu cyfeirio at y Clerc.

4. Defnyddio Gwefannau Cyfryngau Cymdeithasol yn Enw'r Cyngor

- 4.1. Caniateir i'r holl staff/y Clerc (dileer yn ôl y gofyn) ac aelodau etholedig bostio deunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Cyngor ac ar ei ran yn unol â rheolau a chwmpas y polisi hwn.
- 4.2. Os nad ydych yn sicr a yw eich sylwadau yn briodol peidiwch â'u postio cyn gwirio hynny gyda'r Clerc/Cadeirydd.

5. Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

- 5.1. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y rhyngrwyd wrth ddylanwadu ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn meddwl am y Cyngor a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau mae'n eu darparu i'r gymuned. Mae'n cydnabod hefyd pa mor bwysig ydyw fod ein gweithwyr ac aelodau etholedig yn ymuno yn hynny o beth ac yn helpu meithrin sgwrs gymunedol a'r cyfeiriad a gymer trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.
 - a) Cyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw fater allai effeithio buddiannau'r Cyngor mae'n bwysig eich bod wedi darllen a deall y polisi hwn
a
 - b) Bod gweithwyr wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw i wneud hynny gan y Clerc.

6. Rheolau ar Gyfer Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Pryd bynnag y caniateir ichi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r polisi hwn, mae'n rhaid ichi gadw at y rheolau cyffredinol canlynol:

- 6.1. Peidiwch ag uwchlwytho, postio na danfon ymlaen ddolen at unrhyw gynnwys anwedus, ffaidd, wahaniaethol, aflonyddus, bychanol neu ddifenwol.
- 6.2. Dylai unrhyw weithiwr/aelod etholedig sy'n teimlo y cawsant eu haflonyddu neu fwlïo, neu a dramgwyddwyd gan ddeunydd a bostiwyd neu a uwch lwythwyd gan gydweithiwr ar wefan cyfryngau cymdeithasol, roi gwybod i'r Clerc/Cadeirydd.
- 6.3. Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif, bersonol, breifat neu gyfrinachol. Os nad ydych yn siŵr a yw'r wybodaeth yr hoffech ei rhannu yn perthyn i un o'r categorïau hyn, dylech drafod hynny gyda'r Clerc/Cadeirydd.
- 6.4. Peidiwch â llwytho, postio na danfon ymlaen unrhyw gynnwys sy'n eiddo i drydydd parti onid oes gennych gydsyniad y trydydd parti dan sylw.
- 6.5. Cyn ichi gynnwys dolen i wefan trydydd parti, gwiriwch fod amodau a thelerau'r wefan honno yn caniatáu ichi wneud dolen iddi.
- 6.6. Wrth ddefnyddio unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol, mae'n rhaid ichi ddarllen a chydymffurfio ag amodau ei ddefnyddio.
- 6.7. Byddwch yn onest ac agored, ond byddwch yn ystyriol o'r effaith y gallai eich cyfraniadau ei chael ar ganfyddiadau pobl o'r Cyngor.
- 6.8. Rydych yn bersonol gyfrifol am gynnwys a gyhoeddwch ar declynnau cyfryngau cymdeithasol.
- 6.9. Peidiwch â dwysáu trafodaethau tanbaid, ceisiwch fod yn gymodlon, yn barchus a chyfeiriwch at ffeithiau er mwyn gwneud y trafod yn llai blin a chywiro anwireddau.
- 6.10. Peidiwch â thrafod cydweithwyr heb gael eu cydsyniad ymlaen llaw.
- 6.11 Dylech bob tro ystyried preifatrwydd pobl eraill a pheidiwch â thrafod materion allai fod yn ymfflamychol e.e. gwleidyddiaeth a chrefydd. Cofiwch, er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio am bleidleisiau trwy eich cyfrifon

cyfryngau cymdeithasol eich hunain, na fydd hynny'n dderbyniol os ydych yn cynnig barn ar ran y Cyngor.

- 6.12 Peidiwch â chyhoeddi eich manylion cyswllt os all pobl nad oeddech yn bwriadu iddynt eu gweld gael gafael arnynt a gwneud defnydd helaeth ohonynt, a pheidiwch byth â chyhoeddi manylion cyswllt unrhyw un arall.

7. Monitro'r Defnydd o Wefannau Cyfryngau Cymdeithasol

- 7.1. Dylai gweithwyr ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol y gall unrhyw ddefnydd o wefannau cyfryngau cymdeithasol (os ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion y Cyngor ai peidio) gael ei fonitro a, phan ddarganfyddir enghreifftiau o dorri'r polisi hwn, y gellir cymryd camau yn erbyn gweithwyr o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu a chynghorwyr o dan y Cod Ymddygiad.
- 7.2. Mewn rhai amgylchiadau, gall camddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol, fod yn drosedd droseddol neu gall roi bod i rwymedigaeth gyfreithiol yn eich erbyn chi a'r Cyngor.
- 7.3. Yn benodol, mae'n debyg y bydd achos difrifol o uwch lwytho, postio, danfon ymlaen neu bostio dolen at unrhyw un o'r mathau canlynol o ddeunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol/torri amodau'r Cod Ymddygiad (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol):
- a) deunydd pornograffig (hynny yw, ysgrifennu, lluniau, ffilmiau a chlipiau fideo o natur amlwg rywiol neu rywiol gynhyrfol);
 - b) datganiad anwir neu ddifenwol am unrhyw berson neu sefydliad;
 - c) deunydd sy'n dramgwyddus, ffaidd, troseddol, gwahaniaethol, bychanol neu allai beri embaras i'r Cyngor, ein cynghorwyr neu ein gweithwyr;
 - d) gwybodaeth gyfrinachol am y Cyngor neu unrhyw un arall;
 - e) unrhyw ddatganiad arall sy'n debygol o greu unrhyw gyfrifoldeb (boed droseddol neu sifil, boed ichi neu'r sefydliad); neu
 - f) ddeunydd sy'n torri hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol eraill, neu sy'n tarfu ar breifatrwydd unrhyw berson.
- Eir i'r afael ag unrhyw weithredu o'r fath o dan y Weithdrefn Ddisgyblu/ Cod Ymddygiad.
- 7.4. Pan ddarganfyddir tystiolaeth o gamddefnyddio gall y Cyngor gynnal ymchwiliad manylach fyddai'n cynnwys archwilio a datgelu cofnodion monitro i'r sawl a enwebwyd i gynnal yr ymchwiliad ac unrhyw dystion neu reolwyr sy'n rhan o'r ymchwiliad. Os oes angen, gellir rhoi gwybodaeth o'r fath i'r heddlu fel rhan o ymchwiliad troseddol.
- 7.5. Os sylwch fod unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan weithwyr eraill/aelodau etholedig yn torri'r polisi hwn dylech roi gwybod i'r Clerc/Cadeirydd *yn unol â Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor*.

8. Monitro ac Adolygu'r Polisi

- 8.1. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion cymdeithasol ac yn adlewyrchu arfer gorau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer aelodau etholedig, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i'w gweld ar wefan Un Llais Cymru:-

http://www.onevoicewales.org.uk/OVWeb/good_practicegeneral-8204.aspx